OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1353 (Cy.101) (C.59)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 17 Mai 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 181 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni ddywedir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ac Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru

Darpariaethau sy'n dod i rym yng Nghymru ar 31 Mai 2005

2. Yn ddarostyngedig i erthygl 3, daw'r darpariaethau canlynol i rym yng Nghymru ar 31 Mai 2005 —

(a) adran 126,

(b) adran 157, i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 15 o Atodlen 10,

(c) adran 164, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

(ch) adran 165,

(d) adrannau 166 a 167, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym,

(dd) adrannau 168 i 170,

(e) adran 171, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

(**1**) 2002 p.15. Gweler y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 181(4).

(f) yn adran 172, is-adrannau (1) i (5), ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwysiad adrannau 21 i 22 o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**2**), fel y'u hamnewidir neu fel y'u mewnosodir gan adrannau 152 i 154, i'r Goron,

(ff) adran 176 ac Atodlen 13, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, a

(g) adran 180, i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu yn Atodlen 14 —

(i) y diffiniad o "the valuation date" ym mharagraff 1(1) o Atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**3**);

(ii) adran 82 o Ddeddf Tai 1996(**4**); a

(iii) ym mharagraff 18(2) o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, paragraff (b) a'r gair "and" sydd o'i flaen.

Arbediad a darpariaeth drosiannol

3.—(1) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 31 Mai 2005 ac sy'n dod i ben ar y dyddiad y mae adrannau 121 i 124 yn dod i rym yn llawn, bydd paragraff 4(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn effeithiol fel petai'r geiriau "persons who are participating tenants immediately before a binding contract is entered into in pursuance of the initial notice" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "participating tenants".

(2) Ni fydd adran 126 yn effeithiol o ran —

(a) hysbysiadau a roddir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 13 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993; neu

(b) ceisiadau a wneir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 26 o'r Ddeddf honno.

(3) Ni fydd adran 168 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(**5**) cyn 31 Mai 2005 ynghylch torri unrhyw gyfamod neu amod gan denant.

(4) Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan adran 170 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 cyn 31 Mai 2005.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

D. Elis-Thomas
17 Mai 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1985 p.70. (Caiff adrannau 21, 21A, 21B a 22 eu hamnewid neu eu mewnosod pan ddaw adrannau 152 i 154 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 i rym yn llawn).
(**3**) 1993 p.28.
(**4**) 1996 p.52.
(**5**) 1925 p.20.
(**6**) 1998 p.38.